Adran Gwaith
a Phensiynau

# Taliad Cymorth Profedigaeth

## Mae gennym lawer o ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi

Os hoffech braille, Iaith Arwyddion Prydain, e-bost, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 169 0310** neu ffôn testun **0800 169 0314** a dywedwch wrthym pa un sydd ei angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau tir a ffonau symudol.

## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I gael gwybod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Equality' yn **www.gov.uk**

### Beth yw Taliad Cymorth Profedigaeth

Mae Taliad Cymorth Profedigaeth yn rhoi cefnogaeth ariannol i bobl am gyfnod ar ôl marwolaeth partner.

Rydym yn cyfeirio at y person sydd wedi marw fel 'eich diweddar bartner'. Wrth hyn rydym yn golygu naill ai'ch gŵr, gwraig, partner sifil, neu bartner yr oeddech yn byw gyda nhw fel petaech yn briod â nhw.

### Beth fyddwch yn ei gael

Mae 2 gyfradd wahanol o Daliad Cymorth Profedigaeth.

### Cyfradd safonol

Efallai gallech gael cyfandaliad o £2,500 wedi'i ddilyn gan 18 taliad misol o £100.

### Cyfradd uwch

Os oeddech yn gyfrifol am blentyn o dan 20 oed neu'n disgwyl babi ar yr amser fu farw eich partner gallech gael cyfandaliad o £3,500 wedi'i ddilyn gan 18 taliad misol o £350.

### Eich cais am Daliad Cymorth Profedigaeth

I sicrhau y byddwch yn cael eich taliad cyn gynted â phosibl:
- atebwch yr holl gwestiynau ar y ffurflen hon sy'n berthnasol i chi â'ch diweddar bartner
- anfonwch yr holl ddogfennau i ni rydym yn gofyn am.

Os na allwch anfon yr holl ddogfennau atom ar unwaith, dylech barhau i anfon eich ffurflen gais i mewn nawr.

**Cyn i chi ddechrau**

I wneud cais bydd angen arnoch:

- dyddiad marwolaeth eich diweddar bartner
- rhif Yswiriant Gwladol eich diweddar bartner
- eich rhif Yswiriant Gwladol
- eich manylion banc
- eich tysysgrif priodi neu bartneriaeth sifil, os oes un gennych.

---

## Chi

**01 Teitl**

Er enghraifft Mr, Mrs, Miss, Ms.

**02 Cyfenw neu enw teuluol**

**03 Pob enw arall yn llawn**

**04 Yr holl gyfenwau neu enwau teuluol eraill rydych wedi'u defnyddio neu wedi cael eich hadnabod wrthynt**

Cofiwch gynnwys enw cyn priodi, yr holl enwau partneriaeth briod neu sifil a phob newid yn enw'r teulu.

**05 Rhif Yswiriant Gwladol**

Gallwch gael hwn o'ch cerdyn rhif Yswiriant Gwladol, llythyrau am fudd -daliadau, slipiau cyflog neu ffurflen P60.

**06 Dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

/ /

**07 Cyfeiriad cartref lle rydych yn byw fel arfer**

Cod post

**08 Rhif ffôn cartref**

Os oes un gennych.

**09 Rhif ffôn symudol**

Fel y gallwn anfon negeseuon testun i'ch ddiweddaru am eich achos.

**10 Ydych yn hapus i ni gysylltu â chi trwy e-bost?**

- [ ] Na
- [ ] Ydw

Dywedwch wrthym eich cyfeiriad e-bost

**11** **Y cyfeiriad lle roeddech yn byw fel arfer pan fu farw eich diweddar bartner**

Os oedd yn wahanol i'ch cyfeiriad nawr.

Cod post

**12** **Oeddech yn briod neu mewn partneriaeth sifil gyda'r person a fu farw, ar adeg ei farwolaeth?**

☐ Na Ewch i gwestiwn 17

☐ Oeddwn

**13** **Ydych chi'n anfon eich tystysgrif priodi neu bartneriaeth sifil atom?**

☐ Na

☐ Ydw

Anfonwch gopi gwreiddiol eich tystysgrif priodi neu bartneriaeth sifil atom. Peidiwch ag anfon llungopi. Byddwn yn dychwelyd eich tystysgrif i chi. Os nad yw'r tystysgrif gwreiddiol gennych, dylech barhau i anfon y ffurflen gais hon nawr.

**14** **Beth oedd dyddiad eich priodas neu bartneriaeth sifil?**

Os gwnaethoch drosi eich partneriaeth sifil yn briodas neu briodi'ch partner sifil, pa ddyddiad y mae eich priodas yn cael ei thrin fel dechrau.

DD/MM/BBBB

/ /

**15** **Ym mha wlad y digwyddodd eich priodas neu bartneriaeth sifil?**

**16** **Ym mha grefydd y cynhaliwyd y seremoni?**

**Efallai y bydd angen ychydig mwy o wybodaeth arnom gennych. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os oes angen gwybodaeth arnom.**

**17** **Ar adeg ei farwolaeth, a oeddech yn byw gyda'r person a fu farw fel petai eich bod yn briod â nhw?**

☐ Na

☐ Oeddwn

## Eich diweddar bartner

**18 Teitl eich diweddar bartner**

Er enghraifft Mr, Mrs, Miss, Ms.

[ ]

**19 Eu cyfenw neu enw teuluol**

[ ]

**20 Eu henwau eraill yn llawn**

[ ]

**21 Yr holl gyfenwau neu enwau teuluol eraill maent wedi cael eu hadnabod wrthynt neu'n dal i'w ddefnyddio**

[ ]

**22 Eu rhif Yswiriant Gwladol**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |

**23 Eu dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

[ / / ]

**24 Eu cyfeiriad**

Os oedd yn wahanol i'ch cyfeiriad chi.

Os nad ydych yn gwybod eu cyfeiriad diweddaf, rhowch 'ddim yn hysbys'

[ ]

[ ]

[ ]

Cod post [ ]

**25 Ar ba dyddiad bu farw?**

DD/MM/BBBB

[ / / ]

Os oes gennych dystysgrif marwolaeth dros dro neu lythyr gan y crwner yn cadarnhau'r farwolaeth, anfonwch ef atom. Os yw'n well gennych, gallwch fynd â'ch tystysgrif i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith. Cymerwch y ffurflen hon hefyd. Ond os nad oes gennych unrhyw dystysgrifau eto, dylech barhau i anfon eich ffurflen gais i mewn nawr.

**26 Wnaethant dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyn iddynt farw?**

☐ Na

☐ Do

Dywedwch wrthym a oeddent yn:

☐ cyflogedig

☐ hunan-gyflogedig

**27** **Ydych yn meddwl bod eich diweddar bartner wedi marw oherwydd damwain yn y gwaith, neu oherwydd afiechyd neu salwch sy'n gysylltiedig â'u gwaith?**

☐ Na

☐ Ydw

A gawn ni adroddiadau meddygol gan eu meddyg ac unrhyw ysbyty, os oes eu hangen arnom?

☐ Na

☐ Cewch

**28** **A wnaeth eich diweddar bartner erioed fyw neu weithio y tu allan i'r DU?**

Os mai dim ond yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon yr oeddent yn byw neu'n gweithio erioed, ticiwch **Na**.

☐ Na Ewch i gwestiwn 29

☐ Do

Ym mha wlad y gwnaethon nhw fyw neu weithio?

Gwlad Un

☐

Pryd gwnaethant fyw yno?

O  / /

I  / /

A wnaethant dalu i mewn i gynllun nawdd cymdeithasol y wlad yr oeddent yn byw ynddi?

☐ Ddim yn gwybod

☐ Na

☐ Do

Os ydych wedi ateb Do beth oedd eu rhif cyfeirnod nawdd cymdeithasol?

☐

Ym mha wlad y gwnaethant fyw neu weithio?

Gwlad Dau

☐

Pryd gwnaethant fyw yno?

O  / /

I  / /

A wnaethant dalu i mewn i gynllun nawdd cymdeithasol y wlad yr oeddent yn byw ynddi?

☐ Ddim yn gwybod

☐ Na

☐ Do

Os ydych wedi ateb **Do** beth oedd eu rhif cyfeirnod nawdd cymdeithasol?

☐

Os ydynt wedi byw mewn mwy na 2 wlad, dywedwch wrthym yr un wybodaeth ag uchod ar gyfer y gwledydd hyn hefyd.

☐

Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch **Mwy o Wybodaeth** ar **Dudalen 9**

## Eich plant

**29** **Oedd gennych unrhyw blant dibynnol ar yr adeg y bu farw'ch diweddar bartner?**

Gallai hwn fod yn blentyn o dan 16 oed neu'n berson ifanc 16, 17, 18 neu 19 oed.

- [ ] Na Ewch i gwestiwn 33
- [ ] Oedd Ewch i gwestiwn 30

**30** **Oes gennych, neu a oedd gennych, hawl i Fudd-dal Plant?**

Efallai bydd yn rhaid i chi wneud cais am Fudd-dal Plant er mwyn cael y gyfradd uwch o Daliad Cymorth Profedigaeth.

- [ ] Na Ewch i dudalen 31
- [ ] Oes Ewch i dudalen 7

**31** **Os yw'ch hawl wedi dod i ben, ar ba dyddiad y daeth i ben?**

DD/MM/BBBB

/ /

**32** **Ydych chi'n aros i glywed os gallwch gael Budd-dal Plant?**

- [ ] Na
- [ ] Ydw

**33** **Oeddech yn disgwyl babi ar yr amser bu farw eich diweddar bartner?**

- [ ] Na
- [ ] Oeddwn

### Mwy o wybodaeth

Cysylltwch â Chyllid a Thollau EF (HMRC) i gael gwybodaeth am hawlio Budd-dal Plant.

Ewch i **www.gov.uk/budd-dal-plant/sut-i-hawlio** neu ffoniwch Linell Gymorth HMRC ar **0300 200 1900**. Os oes gennych anawsterau llefaru neu glywed, ac yn defnyddio ffôn testun, y rhif i ddefnyddio yw **0300 200 3103**.

## Sut byddwn yn eich talu

Mae Taliad Cymorth Profedigaeth yn cael ei dalu'n fisol.

### Byddwn yn talu'ch arian i gyfrif.

Bydd llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn caniatáu i chi gasglu'ch arian yn y swyddfa bost.

Byddwn yn dweud wrthych pan fyddwn yn gwneud y taliad cyntaf a faint fydd. Byddwn yn dweud wrthych os yw'r swm rydym yn ei dalu i'r cyfrif yn mynd i newid.

### Darganfod faint rydym wedi'i dalu i'r cyfrif

Gallwch wirio'ch taliadau ar ddatganiadau cyfrif. Efallai y bydd y datganiadau yn dangos eich rhif Yswiriant Gwladol wrth ymyl unrhyw daliadau rydym wedi'u gwneud. Os ydych yn credu bod taliad yn anghywir, cysylltwch â ni ar unwaith.

### Os ydym yn talu gormod o arian i chi

Mae gennym yr hawl i gael unrhyw arian a dalwn yn ôl na ddylech fod wedi'i gael. Gall hyn fod oherwydd y ffordd y mae'r system yn gweithio ar gyfer taliadau i mewn i gyfrif.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i ni, sy'n golygu bod gennych hawl i lai o arian. Weithiau efallai na fyddwn yn gallu newid y swm rydym eisoes wedi'i dalu i chi. Mae hyn yn golygu y byddwn wedi talu arian i chi na ddylech fod wedi'i gael.

**Byddwn yn cysylltu â chi cyn i ni gymryd unrhyw arian yn ôl.**

### Beth i'w wneud nawr

- Dywedwch wrthym am y cyfrif rydych am ei ddefnyddio ar y dudalen nesaf. Trwy roi manylion eich cyfrif i ni, rydych yn:
  - cytuno y byddwn yn eich talu i mewn i gyfrif, a
  - deall yr hyn rydym wedi'i ddweud wrthych uchod, yn yr adran **Os ydym yn talu gormod o arian i chi**
- Os ydych yn mynd i agor cyfrif, dywedwch wrthym fanylion eich cyfrif cyn gynted ag y byddwch yn eu cael
- Os nad oes gennych gyfrif, cysylltwch â ni a byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi.

### Am y cyfrif rydych am ei ddefnyddio

- Gallwch ddefnyddio cyfrif yn eich enw chi, neu gyfrif ar y cyd.
- Gallwch ddefnyddio cyfrif rhywun arall os:
  - mae telerau ac amodau eu cyfrif yn caniatáu hyn, a
  - maent yn cytuno i adael i chi ddefnyddio eu cyfrif, a
  - rydych yn siŵr y byddant yn defnyddio'ch arian yn y ffordd rydych yn dweud wrthynt.
- Gallwch ddefnyddio cyfrif undeb credyd. Rhaid i chi ddweud wrthym fanylion cyfrif yr undeb credyd. Bydd eich undeb credyd yn gallu eich helpu gyda hyn
- Os ydych yn benodai neu'n gynrychiolydd cyfreithiol sy'n gweithredu ar ran y cwsmer, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig.

**Dywedwch wrthym fanylion eich cyfrif isod.**

**Mae'n bwysig iawn eich bod yn llenwi'r holl flychau yn gywir, gan gynnwys rhif rol y gymdeithas adeiladu neu'r rhif cyfeirnod, os oes un gennych. Os dywedwch wrthym fanylion y cyfrif anghywir, efallai y bydd eich taliad yn cael ei ohirio neu efallai y byddwch yn colli arian.**

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cyfrif ar eich datganiadau banc neu'ch llyfr siec. Os nad ydych yn gwybod manylion y cyfrif, gofynnwch i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu.

**34** **Enw deiliad y cyfrif**

Yn union fel y dangosir ar y datganiad neu'r llyfr siec.

**35** **Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu**

**36** **Cod didoli**

Dywedwch wrthym y 6 rhif, er enghraifft 12-23-56.

**37** **Rhif y cyfrif**

Mae'n rhaid i hwn fod rhwng 6 a 10 rhif.

**38** **Rhif rol neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu**

☐ Efallai y cewch fudd-daliadau a hawliau eraill nad ydym yn eu talu i gyfrif. Os ydych am i ni eu talu i'r cyfrif uchod, ticiwch y blwch hwn.

## Mwy o wybodaeth

Darllenwch y nodiadau a ddaeth gyda'r ffurflen hon. Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym unrhyw beth arall rydych yn meddwl y gallai fod angen i ni ei wybod.

## Datganiad

Trwy gyflwyno'r cais hwn, rydych yn cytuno bod y wybodaeth rydych wedi'i rhoi yn gyflawn ac yn gywir; tra'ch bod yn cael Taliad Cymorth Profedigaeth, byddwch yn rhoi gwybod am newidiadau i'ch amgylchiadau ar unwaith trwy ffonio **0800 731 0453**. Os ydych yn rhoi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn, neu os na fyddwch yn rhoi gwybod am newidiadau ar unwaith, gallwch:

- cael eich erlyn
- angen talu cosb ariannol
- cael eich Taliad Cymorth Profedigaeth wedi'i leihau neu ei stopio
- cael gormod o Daliad Cymorth Profedigaeth a gorfod talu'r arian yn ôl
- Os ydym yn talu llai i chi nag y dylem, efallai y byddwn yn talu'r arian sy'n ddyledus i chi.

**Dyma fy nghais am Daliad Cymorth Profedigaeth**

**39 Llofnod**

**40 Dyddiad**

DD/MM/BBBB

/ /

## Beth i'w wneud nawr

**Sicrhewch eich bod wedi llofnodi'r ffurflen hon.**

**Anfonwch eich ffurflen gais atom cyn gynted ag y bo modd.**

Dychwelwch y ffurflen gais hon i:
**Bereavement Support Payment,**
**Mail Handling Site A,**
**Wolverhampton WV98 2BS**

neu i'ch Canolfan Byd Gwaith lleol.

Gallwch hefyd ein ffonio ar **0800 731 0453**. Os oes gennych anawsterau llefaru neu glywed, gallwch gysylltu â ni trwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 731 0456**.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Byddwn yn ysgrifennu atoch cyn gynted â phosibl gyda phenderfyniad ar eich cais. Os gallwch gael Taliad Cymorth Profedigaeth, byddwn yn gwneud taliad i'ch cyfrif cyn gynted ag y gallwn.

Efallai y bydd angen mwy o wybodaeth arnom am eich cais. Byddwn yn cysylltu â chi i ddweud wrthych beth sydd ei angen arnom.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cais, gallwch ein ffonio ar **0800 731 0453**.

## Mwy o help ariannol

Defnyddiwch gyfrifiannell annibynnol yn **www.gov.uk/benefits-calculators** i ddarganfod:

- pa fudd-daliadau y gallech gael
- sut i wneud cais
- sut y bydd eich budd-daliadau yn cael eu heffeithio os ydych yn gweithio

## Sut mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel y mae'r gyfraith yn caniatáu i wirio'r wybodaeth rydych yn ei darparu a gwella ein gwasanaethau. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i amddiffyn rhag trosedd.

I ddarganfod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol DWP ar **www.gov.uk**

## Sefydliadau eraill a allai eich helpu

Eich Cyngor ar Bopeth lleol. Gallwch ddod o hyd i'ch swyddfa leol yn **www.citizensadvice.org.uk**

Mae Cruse Bereavement Care yn cynnig cefnogaeth emosiynol i'r rhai mewn profedigaeth.

Gallwch gysylltu â nhw ar:
Ffôn: **0808 808 1677**
Gwefan: **www.cruse.org.uk**